# Glasbrint ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

2024



# Cyflwyniad

Mae'r Etholiad Cyffredinol yn bwysig iawn i bawb hŷn. Mae nifer o bobl hŷn yn gobeithio sicrhau dyfodol gwell wedi cyfnodau anodd yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw. Mae nifer yn gobeithio sicrhau dyfodol gwell ar gyfer eu teuluoedd a chenedlaethau'r dyfodol – ac maen nhw'n awyddus i greu'r dyfodol hynny.

**Yn ôl Data Cyfrifiad 2021, mae tua 1,300,100 o bobl yng Nghymru yn hŷn na 50 oed. Tybiwyd bod y boblogaeth gyfan tua 3 miliwn mae nifer y bobl dros 50 oed tua 42% o'r boblogaeth gyfan.[1] Mae tua 662,000 o bobl yn 65 oed neu'n hŷn. Mae disgwyl i nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn gynyddu i 18% rhwng canol 2021 a 2031 a disgwylir i nifer y bobl sy'n 75 oed neu'n hŷn gynyddu 24% yn ystod yr un cyfnod.[2]**

Rydyn ni angen i lywodraethau ystyried sut mae'r boblogaeth yn mynd i newid, a sicrhau bod eu polisïau'n adlewyrchu hyn.

Yn yr Etholiad Cyffredinol, hoffwn weld pob plaid wleidyddol yn cynnig polisïau ymarferol er mwyn cefnogi pobl hŷn, yn enwedig pobl mewn angen, a sicrhau bod mwy o bobl yn medru heneiddio'n urddasol ac yn ddiogel.

# Datganoli

Mae nifer o'r meysydd allweddol sy'n dylanwadu ar bobl hŷn yng Nghymru wedi cael eu datganoli, yn cynnwys iechyd a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, trafnidiaeth a thai. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol yn 2024 yn canolbwyntio ar faterion nad ydynt wedi cael eu datganoli, sydd dan reolaeth Llywodraeth y DU. Mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn sicrhau bod cytundeb ariannol Cymru'n galluogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â heriau poblogaeth sy'n heneiddio.

| Cyfrifoldebau Llywodraeth y DU | Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Amddiffyn | Addysgu |
| Y Cyfansoddiad | Amaeth a Materion Gwledig |
| Darlledu | Yr Amgylchedd |
| Datblygu Rhyngwladol | Datblygu'r Economi |
| Diogelwch Cartref | Diwylliant |
| Yr Heddlu a Chyfiawnder | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Materion Tramor | Yr Iaith Gymraeg |
| Mewnfudo | Iechyd |
| Polisi Masnach | Llywodraeth Leol |
| Rheoliad Chwaraeon | Tai |
| | Trafnidiaeth |

# Pwy ydyn ni?

**Age Cymru ydym ni.** Ni yw'r elusen genedlaethol sy'n cefnogi pobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n falch iawn i fod yn rhan o rwydwaith Age UK. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys Age Cymru, a'r tair elusen genedlaethol, Age UK, Age Scotland ac Age NI a gyda 120 Age UK lleol ar draws Lloegr, pump partner lleol Age Cymru ac Age Orkney.

Drwy gydweithio gyda'n partneriaid, mae Age Cymru'n gweithio i wella bywydau pobl hŷn drwy ddarparu cyngor a gwasanaethau dibynadwy sy'n medru darparu cefnogaeth. Rydyn ni'n ymgyrchu, yn gwneud gwaith ymchwil, ac yn codi arian er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwella bywydau pobl hŷn. Rydyn ni'n sicrhau bod gan bobl hŷn gyfleoedd i leisio eu barn, rydyn ni'n herio ac yn newid agweddau meddwl ac yn herio gwahaniaethu o bob math

**Rydyn ni yma i gefnogi pobl hŷn, a byddwn ni'n parhau i fod yno i bawb sydd angen ein help.**

# Gwella hawliau pobl hŷn a herio gwahaniaethu ar sail oedran

Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn endemig yn ein cymdeithas. Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn golygu nad yw barn pobl hŷn yn cael ei gynnwys na'i glywed gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, ac nid yw eu hanghenion yn cael eu deall yn iawn. Mi wnaeth y pandemig ddangos nad oes gan y Llywodraeth wybodaeth na dealltwriaeth ddigonol o anghenion pobl hŷn, a gall penderfyniadau effeithio ar bobl hŷn mewn ffordd negyddol.

Wrth i'r boblogaeth heneiddio'n gyflym, mae pobl yn byw'n hirach. Mae'n hanfodol bod pob person hŷn yn teimlo'n werthfawr, a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Mae'n bosib i gymdeithas elwa o gyfraniad pobl hŷn i'r economi, a'u cyfraniad fel gofalwyr.

Rydyn ni eisiau creu cymdeithas sy'n cydnabod ac yn amddiffyn hawliau dynol pobl hŷn, cymdeithas sy'n ystyried anghenion pobl hŷn wrth lunio polisïau a darpariaeth gwasanaethau drwy'r Llywodraeth gyfan

> **Yn ein harolwg cenedlaethol o bobl hŷn yng Nghymru 2023, dywedodd mwy nag 1 ymhob 10 o bobl hŷn eu bod wedi dioddef gwahaniaethu ar sail oedran.[3]**



## Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf y DU i

- Orfodi'r gyfraith gwahaniaethu ar sail oedran bresennol a darparu canllawiau i sicrhau bod cyflogwyr yn trin gweithwyr hŷn yn deg
- Cymryd camau i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn y farchnad lafur
- Gwella'r Cynllun Iawndal Windrush a throsglwyddo ei weinyddiaeth i gorff annibynnol
- Gweithredu Adran 14 o'r Ddeddf Cydraddoldeb a fyddai'n mynd i'r afael â'r gwahaniaethu deuol y mae llawer o bobl hŷn yn ei wynebu o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig eraill
- Cymryd camau i sicrhau bod gan ofalwyr di-dâl mwy o ddiogelwch a hyblygrwydd yn y gweithle
- Sicrhau bod gan fusnesau, y cyfryngau, sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol system gymorth a pholisïau ar waith i sicrhau bod pobl hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cynrychioli mewn cymdeithas
- Cefnogi creu Confensiwn Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fyddai'n helpu i sicrhau bod pob person hŷn ledled y byd yn cael ei drin yn gyfartal mewn cymdeithas.

# Mynd i'r afael â thlodi ymhlith pensiynwyr

Mae incwm digonol yn darparu urddas a diogelwch, ac yn helpu pobl i aros yn annibynnol ac yn heini. Mae cartref cynnes, bwyd maethlon, pleserau bach achlysurol a'r gallu i deithio o gwmpas yn hanfodol i iechyd a llesiant, gan helpu pobl hŷn i wneud y gorau o'u bywydau. Dyma'r profiad ddylai pob person hŷn ledled Cymru fod yn mwynhau.

Yn anffodus, i gyfran sylweddol o'n poblogaeth hŷn mae bywyd llawer yn fwy anodd. Credwn y dylai fod gan bob person hŷn incwm sy'n caniatáu iddyn nhw fyw'n dda, heb orfod bwydro i dalu biliau bwyd ac ynni, heb orfod cyfri pob ceiniog sy'n cael ei wario, neu boeni nad oes unrhyw arian ar gyfer argyfwng sydyn fel prynu ffwrn newydd.

Mae cymhlethdodau'r system fudd-daliadau yn golygu nad yw llawer o bobl hŷn yn hawlio eu hawliau llawn. Mae Age Cymru'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor er mwyn helpu pobl hŷn i gael mynediad at eu hawliau, ond ni ddylai cyrraedd y cymorth proffesiynol hwnnw fod mor anodd. Mae'n rhaid symleiddio'r broses.

Rydyn ni hefyd eisiau bod y Llywodraeth nesaf yn cydnabod yr amrywiaeth a'r anghydraddoldeb enfawr a chynyddol ymhlith y boblogaeth sy'n hŷn na 50 oed, a bod rhai grwpiau o bobl hŷn ddioddef gwahaniaethu lluosog. Rhaid i Lywodraeth San Steffan sicrhau bod cymorth ariannol priodol ar gael i bawb, gan gynnwys gofalwyr a'r rhai sy'n byw gydag anableddau neu gyflyrau cronig nad ydynt yn gallu parhau i weithio hyd at oedran Pensiwn y Wladwriaeth.



## Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf y DU i:

- Ymrwymo i'r Clo Triphlyg drwy gydol cyfnod y Senedd nesaf
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau, gan gynnwys Credyd Pensiwn, drwy gyhoeddusrwydd a newidiadau mwy sylfaenol fel bod llai o ddibyniaeth ar bobl hŷn yn gorfod llenwi ffurflenni hir a defnyddio systemau cymhleth er mwyn hawlio eu hawliau
- Sicrhau bod buddion digonol i dalu costau hanfodol i bob grŵp a'u bod yn cynyddu bob blwyddyn, o leiaf yn unol â phrisiau cynyddol
- Peidiwch â chodi Pensiwn y Wladwriaeth eto oni bai bod disgwyliad oes yn cynyddu, bod anghydraddoldebau'n lleihau, a bod system o gymorth ariannol ar waith ar gyfer y rhai sy'n ei chael hi'n anodd neu'n amhosibl gweithio tan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, am resymau fel salwch a chyfrifoldebau gofalu
- Gwella'r gefnogaeth pan mae unigolyn hŷn yn dychwelyd i'r gwaith
- Newid y rheolau fel bod Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn cynyddu bob blwyddyn ym mhob gwlad - ar hyn o bryd mae tua dwy ran o bump o'r 1.1 miliwn o bensiynwyr sy'n byw dramor yn derbyn pensiwn 'wedi'i rewi', sy'n golygu nad yw'n cynyddu.

# Rheoli arian

Mae angen i bobl hŷn fedru rheoli eu harian yn hawdd er mwyn byw'n hyderus. P'un a'u bod nhw ar-lein ai peidio mae angen eu bod nhw'n ddiogel rhag sgamiau, a'u bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n medru mwynhau eu pensiwn preifat a chynilion eraill.

**Ers 2015, yng Nghymru, mae 374 o ganghennau banc wedi cau sy'n golygu bod llawer o bobl hŷn yn cael trafferth cael gafael ar arian parod neu reoli eu harian.[4] Mae Hybiau Bancio a Rennir yn ddatblygiad da ond maent yn cael eu cyflwyno'n araf iawn. Mae angen mwy o ddiogelwch ar wasanaethau bancio wyneb yn wyneb.**

Mae angen mwy o weithredu er mwyn brwydro yn erbyn sgamiau. Maent yn effeithio ar niferoedd enfawr o bobl hŷn, sy'n aml yn colli symiau sylweddol yn ogystal â dioddef yn emosiynol. Rydym yn croesawu'r gwaharddiad ar alwadau diwahoddiad a chyflwyno'r cod gorfodol ar gyfer ad-dalu dioddefwyr twyll, ond mae angen gwneud llawer mwy, yn enwedig er mwyn helpu pobl i lywio'r farchnad bensiwn preifat gymhleth. Rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod y diwydiant yn helpu pobl i gadw'n ddiogel rhag sgamiau a gwneud y mwyaf o'u cynilion pan maent yn ymddeol.



## Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf y DU i:

- Ddiwygio Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023 er mwyn diogelu gwasanaethau bancio wyneb yn wyneb yn ogystal â diogelu mynediad at arian parod
- Gweithio gyda'r diwydiant bancio ar y gwaith parhaus o gyflwyno Hybiau Bancio a diogelu gwasanaethau bancio lleol nes bod gwasanaeth newydd ar waith
- Diogelu mynediad at nwyddau hanfodol a gwasanaethau i ddefnyddwyr sy'n dibynnu ar arian parod drwy sicrhau bod manwerthwyr yn parhau i'w dderbyn
- Yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau technoleg a darparwyr gwasanaethau telathrebu weithredu ar eu hymrwymiadau o dan eu siarteri priodol a'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein drwy sicrhau eu bod yn digolledu dioddefwyr sgamiau os gwnaeth y twyll ddigwydd ar eu platfformau
- Cyflwyno diwygiadau i dwyll sy'n canolbwyntio ar atal ac ar gefnogi dioddefwyr, a ariennir drwy ddatgloi'r enillion a ddaeth o droseddu
- Cynnal adolygiad bob 10 mlynedd o'r diwygiadau 'rhyddid dewis' ac, os oes angen, cymryd camau fel bod pobl yn cael y gorau o'u cynilion pan maent yn ymddeol
- Diwygio ymrestru awtomatig er mwyn helpu pawb i gynilo digon ar gyfer eu hymddeoliad.

# Diogelu defnyddwyr

Mae costau byw uwch, y newid tuag at fanwerthu a bancio ar-lein ac arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd cynyddol ers y pandemig i gyd wedi helpu i greu tir ffrwythlon ar gyfer twyll.

**Yn 2023, adroddwyd bod 40% o'r holl droseddau[5] a adroddir yng Nghymru a Lloegr yn dwyll, gydag amcangyfrifiad o 3.2 miliwn o ddigwyddiadau'n digwydd bob blwyddyn. Mae llai nag un o bob saith achos o dwyll yn cael eu hadrodd i'r heddlu neu Action Fraud.[6]**

Mae arolwg blynyddol Age Cymru'n dangos bod diogelu defnyddwyr yn bryder cynyddol ymhlith pobl hŷn. Mae llawer yn ofni bod y symudiad tuag at wasanaethau digidol yn eu bywydau bob dydd yn eu gadael yn fwyfwy agored i dwyll. Ar yr un pryd, mae tactegau mwy traddodiadol - gan gynnwys llythyrau sgam a'r 'gwerthiant caled' dros y ffôn neu ar garreg y drws - yn dal i gael eu defnyddio'n aml i dargedu pobl hŷn a phobl fwy bregus.

## Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i:

- Ddatblygu ymgysylltiad mwy eang sy'n targedu pobl hŷn er mwyn eu dysgu sut i adnabod ac adrodd am dwyll
- Cymryd camau i wella cynhwysiant ariannol pobl hŷn, gan gynnwys trwy fynediad at wasanaethau bancio personol ac addysg ddigidol
- Creu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, cyrff rheoleiddio, elusennau a'r heddlu, er mwyn mynd i'r afael â thwyll a sicrhau bod modd adnabod, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr hŷn yn llwyddiannus
- Gorfodi cwmnïau technoleg a darparwyr gwasanaethau telathrebu i weithredu mesurau mwy ataliol er mwyn rhyng-gipio ac atal twyll
- Mynd i'r afael â'r argyfwng cynyddol o unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith pobl hŷn.



# Ni ddylai pobl hŷn all-lein gael eu hanwybyddu

**Yng Nghymru, nid oes gan 31% o bobl dros 75 oed fynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi, ac nid yw 33% o bobl dros 75 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd.[7]**

Mae'r newid i 'ddigidol yn gyntaf' yn broblem fawr i bobl hŷn sydd all-lein, gan danseilio eu gallu i fyw'n annibynnol ac yn hyderus gartref. Mae'n anodd iddynt gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau preifat fel bancio. Maent hefyd yn wynebu costau uwch, yn ei chael hi'n anodd cael gwybodaeth, ac mae hi bron yn amhosibl cysylltu â chwmnïau neu gyrff cyhoeddus.

Credwn y dylid cefnogi pobl hŷn i fynd ar-lein a gwella eu sgiliau digidol. Fodd bynnag, nid yw pawb yn gallu, nac eisiau, mynd ar-lein, neu efallai eu bod yn teimlo'n anniogel, neu'n methu â chyflawni rhai gweithgareddau.

Dylai cyrff cyhoeddus ddarparu ffyrdd all-lein, hawdd, o gael mynediad i'w gwasanaethau, a dylai busnesau gynnig opsiynau gwasanaeth cwsmeriaid da all-lein yn ogystal ag ar-lein. Dylid sicrhau bod opsiynau o'r fath ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ni ddylai pobl sydd methu prynu pethau ar-lein, gan gynnwys cyfleustodau cyhoeddus, fod dan anfantais ariannol.

Oherwydd bod llinellau tir copr yn cyrydu, maent yn newid i'r digidol. Bydd y seilwaith yn cael ei newid yn gyfangwbl erbyn 2025. Er bod y newid yn fater syml i nifer o bobl, bydd rhai yn ei chael hi'n anodd. Dylai fod gan bob person hŷn sy'n dibynnu ar eu llinell dir wasanaeth ffôn sy'n gweithio'n dda, gan gynnwys yn ystod toriadau pŵer. Ni ddylai defnyddwyr teleofal, er enghraifft pobl sy'n defnyddio systemau larwm, fod yn methu defnyddio eu hoffer, na chael eu gorfodi i brynu offer newydd drud.

## Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf y DU i:

- I'w gwneud hi'n ofynnol i bob gwasanaeth cyhoeddus a chyfleustodau cyhoeddus sicrhau bod ffordd fforddiadwy o'u cysylltu, sy'n all-lein ac sy'n hawdd i'w ddefnyddio
- Yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau telathrebu sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael heb ffôn sy'n gweithio na'r gallu i gael mynediad at wasanaethau TG.



# Cadw'n gynnes yn y cartref

**Mae amcangyfrifon tlodi tanwydd yng Nghymru'n nodi bod aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd yn gartrefi i bobl hŷn yn gyffredinol. O'r holl aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd, roedd 24% yn cynnwys Person Cyswllt y Cartref a oedd yn hŷn na 75 oed, ac roedd 41% yn cynnwys Person Cyswllt y Cartref a oedd yn hŷn na 65.[8]**

Mae cadw'n gynnes yn hanfodol er mwyn byw bywydau cyfforddus, diogel, hapus ac iach, ond mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn cartrefi sy'n annioddefol o oer yn y gaeaf, ac yn ddrud i'w gwresogi. Mae prisiau ynni cynyddol yn golygu bod y gaeafau diweddar wedi bod yn anodd iawn i bobl hŷn ar incwm isel, ac nid yw llawer ohonynt wedi gallu fforddio gwresogi eu cartrefi. Mae angen diwygio mecanweithiau prisio ynni ar gyfer y bobl sydd ar incwm isel, a/neu sy'n wynebu biliau ynni eithriadol o uchel oherwydd anabledd neu salwch, er mwyn helpu i gadw ein poblogaeth hŷn yn gynnes ac yn ddiogel yn eu cartrefi. Mae hyn yn gofyn am brisiau ynni mwy fforddiadwy a rhaglenni inswleiddio cartrefi mwy uchelgeisiol ac effeithiol ledled y DU.

Rydyn ni eisiau bod pob person hŷn yn hyderus yn eu gallu i gadw'n gynnes yn ystod misoedd y gaeaf, waeth beth fo'u hincwm, heb yr angen i leihau faint maent yn gwario ar hanfodion eraill fel bwyd.

### Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf y DU i:

- Ariannu cytundeb ynni wedi'i dargedu, neu 'tariff cymdeithasol', sy'n rhoi disgownt sylweddol i gostau ynni pobl o bob oedran sydd ar incwm isel neu gymedrol
- Ehangu a gwella inswleiddio ledled y DU, yn ogystal â chyflwyno cynlluniau gwella systemau gwresogi, gan roi blaenoriaeth i bobl ar incwm isel sydd ag anghenion gwresogi cynyddol
- Ehangu'r gwaharddiad ar osod mesuryddion rhagdalu gorfodol, gan ymestyn y gwaharddiad o bobl dros 75 i gynnwys pawb dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- Creu un Rhestr Blaenoriaeth Gwasanaethau ar gyfer yr holl gyfleustodau.

# Yr Iaith Gymraeg

**Mae data a gasglwyd gan Gyfrifiad 2021 yn dangos bod 116,788 o bobl dros 60 oed yn medru siarad Cymraeg, a bod tua 21,000 o bobl hŷn yn teimlo'n fwy hyderus wrth siarad Cymraeg.[9] Mae'n bwysig bod busnesau o fewn y sector gyhoeddus a'r sector breifat yn cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.**

### Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf y DU i:

- I weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn cadw at Ddeddf yr Iaith Gymraeg
- I sicrhau bod banciau a sefydliadau cyllidol yn gwneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn medru defnyddio peiriannau arian gan ddefnyddio'r ddwy iaith, a bod gwasanaethau dros y ffôn ar gael yn y ddwy iaith.

# Cyfeirnodau

1 Stats Cymru Y boblogaeth breswyl arferol yn ôl rhyw ac awdurdod lleol Ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Census/2021/usualresidentpopulation-by-sex-localauthority

2 Stats Cymru Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: sail-2021 (data interim) Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/amcanestyniadau-poblogaeth-cenedlaethol-sail-2021-data-interim

3 Age Cymru 'Beth sy'n bwysig i chi? Profiadau cyfredol pobl 50 oed neu hŷn yng Nghymru – Hydref 2023' Ar gael ar: https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/policy/annual-survey/beth-syn-bwysig-i-chi---profiadau-cyfredol-pobl-50-oed-neu-hn-yng-nghymru-hydref-2023.pdf

4 Which? 'Bank branch closures: is your local bank closing?' – Cyhoeddedig: 17 Mai 2024 Ar gael ar: https://www.which.co.uk/money/banking/switching-your-bank/bank-branch-closures-is-your-local-bank-closing-ayYyu4i9RdHy#how-many-bank-branches-have-closed-since-2015

5 Office for National Statistics 2021 Crime in England and Wales: year ending December 2023 Cyhoeddedig: 25 Ebrill 2024 - Ar gael ar: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/latest

6 Office for National Statistics Crime in England and Wales: Annual Trend and Demographic Tables Cyhoeddedig: 23 Gorffennaf 2023 Ar gael ar: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesannualtrendanddemographictables/current

7 Llywodraeth Cymru (2022) 'Arolwg Cenedlaethol Cymru data cynnar : Ebrill i Fehefin 2021' Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-data-cynnar-ebrill-i-fehefin-2021-html Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 'Dim Mynediad: Profiadau pobl hŷn o allgáu digidol yng Nghymru': Ar gael ar: https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2024/01/Dim-Mynediad-Profiadau-pobl-hyn-o-allgau-digidol-yng-Nghymru.pdf

8 Llywodraeth Cymru (2021) Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru: ym mis Hydref 2021: Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-wediu-modelu-ar-gyfer-cymru-ym-mis-hydref-2021

9 Llywodraeth Cymru (2022) Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html

## Cysylltu â ni

Age Cymru
Tŷ Mariners
Llys Trident
Heol East Moors
Caerdydd CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555
E-bost: enquiries@agecymru.org.uk
www.agecymru.org.uk

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant a'i cofrestrir yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2024